# Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

# Adroddiad Blynyddol 2015

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



OGL

© Hawlfraint y Goron 2015
WG27418

## Pwrpas

Mae Llywodraeth Cymru am gynyddu lefelau cerdded a beicio yng Nghymru i sicrhau y manteision niferus sy'n deillio o deithio llesol, ar gyfer unigolion ac ar gyfer cymdeithas yn gyffredinol. Yn y Rhaglen Lywodraethu, gwnaethom ymrwymiad i gyflwyno deddfwriaeth i gefnogi'r nod hwn. Cafodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 Gydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd 2013, a daeth i rym ym mis Medi 2014. Mae'n paratoi'r ffordd i drawsnewid sut yr ydym yn cynllunio ac yn creu rhwydwaith cerdded a beicio yng Nghymru.

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru 'lunio a chyhoeddi adroddiadau blynyddol ynghylch i ba raddau y mae cerddwyr a beicwyr yn gwneud teithiau llesol yng Nghymru'. Yn ogystal â darparu'r data hwn, mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn darparu'r newyddion diweddaraf o ran gweithredu'r Ddeddf ers iddi ddod i rym ar 25 Medi 2014.

### 1. Lefelau teithio llesol yng Nghymru

Rydym yn monitro cynnydd o ran cyflawni amcanion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 drwy ddangosyddion allweddol, sef:

- Cyfran y boblogaeth (16 oed neu hŷn) sy'n beicio'n aml er mwyn teithio'n llesol; sef o leiaf unwaith neu ddwywaith yr wythnos. Yn 2014-15, y gyfran hon oedd 6% (9% o ddynion a 4% o fenywod).

- Cyfran y boblogaeth (16 oed neu hŷn) sy'n cerdded yn aml er mwyn teithio'n llesol; sef sawl gwaith yr wythnos (3+). Yn 2014-15, y gyfran hon oedd 43%. (Roedd 21% arall yn cerdded 1-2 waith yr wythnos).

- Cyfran y plant o oedran cynradd sydd fel arfer yn cerdded i'r ysgol. Yn 2014-15, y gyfran hon oedd 49% ar gyfer plant cynradd, ac 83% o'r rhai ble yr oedd y pellter yn hyd at hanner milltir.

- Cyfran y plant o oedran uwchradd sydd fel arfer yn cerdded i'r ysgol. Yn 2014-15, y gyfran hon oedd 35% ar gyfer plant uwchradd, a 94% o'r rhai ble yr oedd y pellter yn hyd at hanner milltir.

- Cyfran y plant o oedran cynradd sydd fel arfer yn beicio i'r ysgol. Yn 2014-15, y gyfran hon oedd 2% ar gyfer plant cynradd, a 5% o'r rhai ble yr oedd y pellter yn hyd at filltir.

- Cyfran y plant o oedran uwchradd sydd fel arfer yn beicio i'r ysgol. Yn 2014-15, y gyfran hon oedd llai na 1% ar gyfer plant uwchradd, ac 1% o'r rhai ble yr oedd y pellter yn hyd at filltir.


Mae dadansoddiad ystadegol mwy manwl i’w gael drwy glicio ar y linc canlynol: http://gov.wales/statistics-and-research/walking-cycling-action-plan/?skip=1&lang=cy

## 2. Cyfarwyddyd ar Ardaloedd Dynodedig

Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi mapiau, yn gyntaf lwybrau teithio llesol, ac yna rwydweithiau integredig ar gyfer aneddiadau penodol.

Cafodd y Cyfarwyddyd sy’n nodi’r 142 o ardaloedd dynodedig y mae’r Ddeddf yn berthnasol iddynt, ac y mae’r mapiau hyn wedi’u gwneud ar ei gyder, ei lunio ar 2 Hydref 2014. Mae’n bosib ei weld ar y ddolen hon: http://gov.wales/docs/det/publications/141002geographicalapplicabilityoftheactivetravelactcy.pdf, map ffigwr 1. Mae’r ardaloedd wedi’u nodi’n bennaf ar sail maint, gyda throthwy poblogaeth o 2000. Defnyddiwyd y trothwy poblogaeth mewn ardaloedd adeiledig, yn hytrach na ffiniau gweinyddol. Golyga hyn fod bod yn agos at drefi a phentrefi eraill, a’r posibiliadau o ran teithio llesol o ganlyniad i hynny, yn cael ei ystyried yn rhan o’r broses hon.

Mae’n rhaid i awdurdodau lleol gynhyrchu mapiau o lwybrau sy’n bodoli eisoes a mapiau o rwydweithiau integredig ar gyfer yr holl ardaloedd dynodedig, ond nid yr ardaloedd hyn yn unig. Caiff awdurdodau lleol lunio mapiau o ardaloedd eraill os ydynt yn dewis gwneud hynny.



Ffigwr 1 – Ardaloedd Dynodedig

## 3. Canllawiau Statudol

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau teithio llesol. Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi canllaw i awdurdodau lleol ar gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf (y Canllawiau Cyflenwi), a chanllawiau ar y safonau y dylai llwybrau a chyfleusterau teithio llesol eu bodloni (y Canllawiau Dylunio). Cyhoeddwyd y ddwy gyfres o ganllawiau yn ystod yr hydref 2014 ac maent i'w gweld yma:

Canllaw Cyflenwi: http://gov.wales/docs/det/policy/141105guidancecy.pdf

Canllaw Dylunio: http://gov.wales/docs/det/publications/141209-active-travel-design-guidance-cy.pdf


## 4. Cyfarwyddyd ar gyflwyno Mapiau o'r Llwybrau Presennol

Dechreuodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ar 25 Medi 2014. Mae'r gyfres gyntaf o fapiau, sy'n dangos y llwybrau presennol sy'n ddiogel ac yn addas ar gyfer teithio llesol yn yr aneddiadau sy'n cael eu cynnwys yn y Ddeddf, i'w cyflwyno'n wreiddiol gan bob awdurdod lleol i Weinidogion Cymru erbyn 25 Medi 2015.

Cyflwynwyd Cyfarwyddyd i Brif Weithredwyr Awdurdodau Lleol ar 1 Mehefin 2016, gan ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r Mapiau Llwybrau Presennol i 22 Ionawr 2016, er mwyn ystyried yr oedi wrth gasglu data cychwynnol a galluogi awdurdodau lleol i ymgynghori yn llawn, yn enwedig gyda plant a phobl ifanc yn ystod y cyfnod ar wahân i wyliau'r haf. Cafodd awdurdodau lleol gyfran o'r £0.3m i helpu i ddatblygu'r Mapiau o'r Llwybrau Presennol.

## 5. System Mapio Data Teithio Llesol

Fel sail i'r Mapiau o'r Llwybrau Presennol, roedd angen cynnal arolwg cychwynnol o'r seilwaith cerdded a beicio yn yr ardaloedd dynodedig. I gynorthwyo'r awdurdodau lleol, cynhaliodd Lywodraeth Cymru arolwg cychwynnol o ddata'r holl ardaloedd gan lunio system ganolog i reoli data. Mae hyn yn galluogi'r holl awdurdodau lleol i weithio'n gyson i'r un sylfaen dystiolaeth. Mae'r system hefyd yn galluogi inni ddefnyddio yr un fformat mapio ar gyfer pob awdurdod lleol.




**Ffigur 2 – sgrin lun o'r system fapio**

## 6. Bwrdd Teithio Llesol

Sefydlwyd y Bwrdd Teithio Llesol ar ddechrau 2014 i gyd-gysylltu'r gweithgarwch i helpu i weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn effeithiol. Mae gan y Bwrdd gadeirydd annibynnol ac mae'r aelodau yn cynrychioli adrannau amlwg y llywodraeth (Iechyd, Addysg, Cyfoeth Naturiol, Economi & Trafnidiaeth), awdurdodau lleol a phartneriaid y trydydd sector, yn ogystal â Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn.

## 7. Ennyn Diddordeb a Hyfforddiant Teithio Llesol

Cynhaliwyd Cynhadledd flynyddol Teithio Llesol ar 5 Dachwedd o dan y thema: “Cymru – Cenedl sy'n Cerdded a Beicio – Ehangu'r Apêl”. Roedd y digwyddiad poblogaidd hwn yn edrych ar sut y gellid cynllunio a darparu'r seilwaith a'r ymyriadau cerdded a beicio mewn dull cynhwysfawr, gan olygu bod llawer mwy o'r boblogaeth yn gallu profi manteision teithio llesol.

Mae'r hyfforddiant technegol ar y Canllawiau Dylunio yn cael eu darparu yn ystod yr hydref i helpu ymarferwyr a gwasanaethau ymgynghori i ddefnyddio a deall y safonau newydd ar gyfer dylunio y rhwydwaith cerdded a beicio yng Nghymru.

## 8. Hybu Teithio Llesol

Mae ‘Teithiau Llesol’ yn brosiect tair blynedd i hyrwyddo teithio llesol mewn ysgolion, a dechreuodd ym mis Awst 2015. Mae'r prosiect yn adeiladu ar waith blaenorol o dan y prosiect ‘Beiciwch Hi’ a bydd yn parhau i gefnogi y prosiect ‘Beiciwch Hi’ o fewn ysgolion. Bydd ‘Teithiau Llesol’ yn cydweithio'n agos â nifer fawr o ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru, ac yn datblygu adnoddau fydd ar gael i ysgolion i annog disgyblion, staff a rhieni i gerdded a beicio.

Er mwyn hyrwyddo teithio llesol ymysg cyflogwyr â'u staff, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Cyd-gysylltwyr Cynllun Teithio sy'n gweithio ledled Cymru. Eu nod yw cefngoi cyflogwyr cyhoeddus a phreifat i ddatblygu cynlluniau teithio, sicrhau bod mwy o bobl yn cerdded a beicio, a chael llai o bobl i ddibynu ar geir.

Mae'r Her Teithio Llesol Cenedlaethol, dan arweiniad yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ategu'r gwaith hwn.

## 9. Cyllid Llywodraeth Cymru i wella llwybrau teithio llesol

Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi dyfarnu £5.3 miliwn o gyllid cyfalaf o dan y rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn 2015/16. Bydd 33 o gynlluniau ledled Cymru yn manteisio ar y cyllid i wella'r seilwaith teithio llesol lleol.

Roedd pymtheg o'r cynlluniau llwyddiannus o dan y Gronfa Trafnidiaeth Leol eleni ar gyfer Teithio Llesol gyda dyraniad o £4.9 miliwn. Roedd nifer o'r cynlluniau eraill oedd wedi'u cymeradwyo yn cynnwys elfennau cerdded a beicio. Caiff llwybrau teithio llesol ar hyd cefnffyrdd eu hariannu ar wahân. Yn 2015/16 cafodd £1.65 miliwn ei ddyrannu i wella'r llwybrau hyn.

Cafodd rhagor o gynlluniau eu hariannu drwy'r rhaglen Metro am gost o £2.5 miliwn dros ddwy flynedd. Hefyd, cytunwyd ar raglen dair mlynedd gwerth £4.5 miliwn i wella llwybrau i'r ysgol ar neu gerllaw cefnffyrdd.

## 10. Adolygiad o Ddarparu Teithio Llesol

Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o'r dull o ddarparu cynlluniau teithio llesol yng Nghymru gan yr Athro Stuart Cole. Mae ei adroddiad i'w weld yma:
http://gov.wales/docs/det/publications/transport/150916-professor-cole-active-travel-report-cy.pdf